Cyfres Llanbedr | Mehefin 1932. | Cyf. 32. Rhif 6.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Dyffryn Cletwr Fach.
Storm o Fellt a Tharanau.
Cipdrem ar Hanes y Faenor.
Yr Ewyllys i Orchfygu.
Mrs. J. D. Lewis.
Y Syniad o Dduw.
Adolygiadau.
Priodasau. Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. MEHEFIN, 1932. CYF. XXXII. RHIF 6.

Dyffryn Cletwr Fach.

Y DYN rhyfedd hwnnw; ei enw oedd Thomas Humphreys, ond adnabyddid ef yn well yn Nyffryn Cletwr Fach a llawer dyffryn arall yng nghanolbarth Ceredigion fel Gweydd Penlôn a gelwid ef hefyd gan rai pobl yn Fardd Penlôn. Ganed ef ym Mhenlôn Esgair, bwthyn diaddurn yn Nyffryn Cletwr Fach ar yr wythfed o Chwefror 1814. Mab ydoedd i Evan a Margaret Humphreys. Gweydd oedd ei dad a mabwysiadodd yntau yr un gelfyddyd. Yr oedd ei fam yn gefnither i'r Parch. D. Saunders, gweinidog gyda'r Bedyddwyr ym Merthyr Tydfil; brodor o Undergrove, Llanbedr, Ceredigion; rhwng yr hwn a Dafis Castell-hywel y bu dadl frawdol, fel y tybir, ar bwnc y Drindod. Cariwyd y ddadl ymlaen ar ffurf englynion, ac fe'u gwelir yn "Nhelyn Dewi".

Symudodd rhieni ein gwrthrych o Fydroilyn i Benlôn cyn ei eni ac yr oedd ganddo dri brawd a thair chwaer. Ymfudodd dau frawd ac un chwaer iddo i'r Amerig. Arosodd ef yn hên fab gweddw hyd y diwedd, a Mary ei chwaer, a hithau yn hên ferch weddw, yn gofalu am y tŷ iddo, a threuliodd y ddau oes gyfan a thawel yn y bwthyn lle y cawsant eu geni a'u magu, ac ni fu yr un o honynt ymhell iawn o olwg mŵg Penlôn. Tŷ tô gwellt a dim ond un llawr iddo a hwnnw'n llawr pridd—a dwy ystafell, ac yr oedd un o rhain yn cael ei defnyddio fel gweithdy ac ystafell wely canys yr oedd ynddi ddau wŷdd a gwely, ac ynddi hefyd y porthid yr ednod.

Cefais lawer o'i gymdeithas pan oeddwn grwt ac am hynny yr wyf yn gallu dweyd am dano fel un a thipyn o awdurdod ganddo.

Er ei fod wedi croesi gwastadedd pen mynydd bywyd ac yn teithio'n lled gyflym ar y goriwaered tua dyffryn henoed pan yr adnabum ef gyntaf. Meddai gorff lluniaidd, tua phump ac wyth o daldra ac yn gymedrol drwchus, cerddai yn lled gyflym a syth ond byth yn ddibris. Anaml y byddai wrth gerdded yn ysgogi ei freichiau, nac yn plygu nac yn crymu ei gefn, a byddai'n ymddangos fel yn ofalus ymhle y rhoddai ei droed i lawr bob cam. Nid wyf yn meddwl y bu erioed wrid yn ei wyneb ond yr oedd o edrychiad rhadlon, yn arwyddo dyn diniwed a hollol ddifeddwl drwg; er hynny awgrymai y llygaid craffus a lechai dan dorlannau trymion o eiliau, a'r trwyn a ymylai ar fod yn hir fod yn Gweydd Penlôn graffter miniog, talcen llathraidd, llawn a llechweddog yn awgrymu fod ganddo gôf nerthol a galluoedd meddyliol o rywogaeth gryn lawer yn uwch na'r cyffredin. Rhoddodd yr arferiad o eillio'r farf i fyny pan oedd wedi croesi'r hanner cant oed a gwnaeth dyfu y fath gnwd, ac yr oedd ei aelflew mor hir fel pan wnai gau ei lygaid yr oedd yr olygfa wynebol yn cyfnewid yn hollol fel petae rhyw len wedi syrthio dros yr oll o'i wyneb, ond wedi iddo agor ei lygaid fe godai'r llen ac yr oedd ym ymddangos yn ddyn arall.

Ystyrrid ef gan ei gydnabod yn ymgorfforiad o foddlonrwydd a diniweidrwydd a gwnaeth ei unplygrwydd a'i onestrwydd argraff arosol ar fywydau preswylwyr y dyffryn. 'Roedd yn hollol werinol a gwisgai frethyn cartref. Credai'n ddisigl fod popeth er daioni. Yr oedd yn berchen ar awen fywiog ryfeddol, ac heb or-ganmol gallaf sicrhai na ddeuthum i gyffyrddiad na chlywed sôn am fardd ag oedd yn gallu rhigymu gyda'r fath barodrwydd a Gweydd Penlôn. Yr oedd ei awen yn gyfuniad hapus o'r digrif a'r difrifol. Y mae llawer o'n prif-feirdd wedi llithro, os llithro hefyd o'r trwm i'r ysgafn yn ddiarwybod iddynt. Beth am y diweddar Barch. John Owen, Burry Port? Dyn difrifol a thrymaidd yr olwg, ac onid efe a oedd awdur y gân ddoniol "Cân y Mochyn Du"? Anhygoel ymron yw'r ffaith mai Ieuan Glan Geirionydd, bardd glan yr afon ac awdur "Ar lan Iorddonen ddofn" yw awdur y gân ddigrif "Hên Forgan a'i wraig".

Cyfansoddodd Gweydd Penlôn gannoedd o ganeuon ar wahanol destunau ond nid oedd defnyddiau yn yr un o honynt i archolli teimladau neb nac ychwaith ddim a oedd yn gellweirus. Yr oedd yn gymeriad hollol ar ei ben ei hun, cyfansoddai fel efe ei hun heb wneud yr ymgais leiaf i efelychu neb, ac nid oedd yn rhyw or-awyddus i ymgydnabyddu a gweithiau ein prif-feirdd, er y darllenai yn achlysurol "Y Drych Barddonol" (Caledfryn). Cyfansoddai yn nhafodiaith y dyffryn heb ymgynghori a gramadeg na geiriadur.

Cyn y gellir ei bortreadu yn iawn rhaid dyfynnu rhai o'i rigymau ac hefyd ychydig o'i gynhyrchion gorau. Y mae ei ganeuon digri wedi bod ar lafar trigolion y dyffryn am gyfnod hir. Cenid ac adroddid hwynt gan hên ac ieuanc. Ychydig o honynt sydd wedi eu hargraffu, felly y mae cynnyrch awen ein gwrthrych yn mynd yn gyflym iawn yng ngherbyd amser i ebargofiant. Dyn nodedig yn hytrach na dyn enwog oedd efe ; dyn mawr yn ei gylch ei hun ond pe disgrifid ef fel athronydd mawr neu fardd mawr fe giliai Gweydd Penlôn o'r golwg. Yr oedd ef yn gawr efo'r mesur triban a chyfansoddodd rai miloedd o honynt.

Fel y crybwyllir uchod rhoddodd fynny yr arferiad o eillio ei farf, a gofynnai y gwragedd a oedd yn mynd ac edafedd yno i wneud brethyn o hono pam na wnai shafo fel cynt ;ac fel hyn yr atebodd ef un o honynt :—

" 'Rwyf wedi llwyr flino ar hên arfer y sydd,
Sef shafo y faraf 'mron bob yn ail ddydd ;
Cael dŵr brwd a sebon a rhiglen a drych
Ac ellyn a hoglen a thowel yn sych;
A hynny bob wythnos tua dwywaith neu dair,
Mae'n ormod o ffwdan os coeliwch fy ngair :
Ymdrechais dros ugain o flwyddi'n ddilai
I gadw'r blewynnau o olwg pob rhai ;
Er shafo ar ôl shafo i'r golwg doent hwy,
'Rwyf nawr wedi ildio ni threia'i byth mwy :
Pwy bynnag sy' am gadw'r hên arfer ymla'n
'Rwyf fi'n eitha boddlon a shafed yn lân,
A thynned pob blewyn a niper os myn,
Mae'u cadw o'r golwg yn orchwyl rhy dynn."

Rhydd y pennill canlynol o'i eiddo gipdrem inni ar ei gredo a'i gyffes ffydd :—

" Boddloni 'rwyf i bopeth
A drefnir gan Ragluniaeth,
Waith credu'n gadarn wyf fod Duw
'N rheoli llyw'r llywodraeth."

Yr oedd dylanwadau personoliaeth Gweydd Penlôn y fath fel ag i greu arswyd ac ofn yng nghalon yr annystyriol. Pe gwnai rhywun ymddwyn dipyn yn ddireidus yn ei ŵydd cyfansoddai rigwm o gerydd iddo a byddai hwnnw yn ffraeth a miniog nes creu crechwen ymhlith cyfeillion y troseddwr, ac ystyrrid hyn yn gosp arw am y trosedd. Tybid fod ganddo drwydded i ddefnyddio

ymadroddion digrif mewn perthynas i ddigwyddiadau ynglyn a phersonau, ond gwnai hynny yn hollol foneddigaidd fel na ddigiai neb.

Bu bachgen ifanc o'r enw Lewis yn ei wasanaeth am yspaid o amser, ond pan ymadawodd mi aeth i Ddowlais, ac wedi gweithio yno yn y gwaith haearn dychwelodd i Benlôn i weithio fel gweydd ac un prynhawn daeth i dalu ymweliad ag ef ddau gyfaill iddo o waith haearn Dowlais ac aethant hwy a Lewis allan efo'i gilydd, a phan ddychwelodd Lewis yr oedd, yn ôl tystiolaeth Gweydd Penlôn mewn cyflwr truenus iawn a chafodd gyngor fel y canlyn :—

" Aeth Lewis a dau bwdler o Ddowlais ar ôl tê
I rywle gyda'i gilydd ni wn yn iawn i ble ;
Daeth gartre'n feddw hopsyn yn retsho fel y post,
Trueni anghyffredin oedd gweled dyn mor dost.

Ac wedi'r storm ostegu, daeth dipyn ato'i hun,
Cynghorias ef yn frawdol i ymddwyn megis dyn,—
A pheidio dilyn rhagor o fechgyn y gwaith harn,
Ymdrechu bod yn sobor a chofio dydd y farn."

Yr un Lewis eto. Pan oedd yn ceisio gyrru asyn a chert ar ei ôl un bore heibio Penlôn, a gwelodd y Gweydd ef yn ymdrechu'i oreu i ddarbwyllo'r asyn fynd dipyn yn gyflymach, a galwodd arno'i aros am funud ac wele'r triban a gafodd ei eni ar y pryd :—

" Trueni gweled Lewsyn
Yn ceisio dreifo asyn ;
Ni allant hwy ddim mynd yn glau
Cans maent eich dau mor llibyn.

Ymwelodd cymydoges a elwid Beti Malen ag ef yn ei weithdy un diwrnod ; hên ferch weddw tua thrigain oed. Gofynnodd iddi beth oedd ei hoedran. Atebodd hithau " Os y gwela' i mis Medi nesaf, mi fyddaf yn ddeg ar hugain, byddaf wir." Dyma eto destun triban :—

" Pa fodd mae Beti Malen
Yn ddim ond deg ar hugain ?
A dyna fydd ei hoed hi o hyd ?
Mae yn y byd ers trigain."

GLAN GLOWON.

Storm o Fellt a Tharanau.

AR ddiwedydd o Fehefin cerddais drwy ddôl lydan ar lan afon. Ers oriau, bu'r hin cyn drymed ar fy ysbryd nes imi ffoi am ymwared.

Nid hir y bum cyn deall bod pwysau cyffelyb yn disgyn ar ysgwyddau eraill hefyd.

Ymddangosai popeth o'm cylch ar lethu gan yr un baich hwn. Safai'r borfa yn welw a syn. Diysgog oedd y dail aneirif ar y cloddiau trwchus. Ni symudai, hyd yn oed yr helygen, ei gwefusau. Plygai'r blodau eu pennau yn ddiymadferth. Hongian yn ddiegni a wnai cangau cyhyrrog y dderwen ar ganol y maes. Distawodd yr adar eu cân mewn braw. Sych hefyd oedd murmur yr afon wrth ymlwybro'n ddiog tua'i chartref. Yma a thraw, ymdyrrai heidiau o wartheg. Rhy ofnus oeddynt i frefu yn y syrthni.

Ymddangosai'r cyfan i mi fel darlun digyffro ar gynfas oer. Llewygai Natur dan gyffur y mwrndra, a llethwyd finnau, fwy-fwy, gan yr olygfa.

O'r ddeutu, gorweddai tawelwch diepil, caled fel callestr. Gwag ydyw, ac ni enir ddim allan ohono. O'i dras ef y mae y beddrod mud.

Ychydig bellter o'r fan, yr oedd bryn a godai'n uchel. O'i gorun, gobeithiwn gael golygfa eang o'r wlad a'r môr. Felly, tarewais ar y llwybr priodol i gyrraedd y copa. Gwir mai araf y cerddwn, oherwydd trymder yr awyr, eithr dringais yno mewn pryd. Prin oedd olion bywyd a amlygwyd ar y llethrau. Safai cwmniau o ddefaid, yma ac acw, yn syfrdan. Ni fedrent bori gan arswyd, debygwn i. O'r braidd y gallent anadlu hefyd am mai prin oedd yr awyr.

Syllais allan i'r môr. Golwg hyll ac anniddig oedd arno. Ni symudai ton ar ei wyneb ; ond yn hytrach ceid rhimynnau mân o wyn yn aml i fritho ei wedd las. Onid hwn oedd ei ddull arbennig ef o regi,—dan ei ddannedd ?

Uwchben, mae'r ffurfafen yn llawn o gymylau tywyll a symud yn araf, araf. I'r chwith, yng nghyfeiriad blaen y dyffryn, pygddu yw'r nefoedd. Weithiau ac yn y man, ceir rhidens yn rhibiniau rhybuddiol. Drwy gôl y fagddu, neidia fflach wen. Daw un ohonynt ar warthaf y llall, gan gryfhau mewn angerdd, bob tro.

Ar fyr, dilynir y golau gwyn gan fellten sydd yn brathu ei llwybr, igam-ogam drwy'r cymylau. Ymhen ychydig, clywaf eco o dwrw pell. Mellten arall, a—thwrw ar ei hôl !

Sylwais hefyd mai gyrru i lawr drwy'r cwm a wnai'r cymhelri. Deuai'r fellten â'r daran yn agosach, o ran amser, at ei gilydd a'r elfennau yn gweu eu ffordd tuag ataf.

Erbyn hwn, tyfai disgleirdeb y golau yn gyflym, a gwisgai'r ffagl wawr goch,—a pherigl yn ffromi ymhob fflach fforchog. Dilynid y tafodau tân gan dwrf y daran. Dechreuai hwnnw ei daith mewn twrw grwgnachlyd. Yna, ergyd gref—"Bwm". Trwst lleddf eto, a—"Bwm" arall yn fwy pendant. Berw—"Bwm". Daw si a ddiflanna yn eco mewn gwacter. Yna, heddwch am ysbaid. Mellten arall, a—dicter y daran eilchwyl.

Trwy drugaredd, cofiais y safai noddfa, nepell. Mynnais fy llwybr tuag ati. Ychydig yn is na'r copa, brigai craig i'r wyneb. Odditan yr haen drwchus ceid twll ysgwar a luniwyd gan law garedig yn gysgod anghelfydd i ddyn neu anifail. Penderfynais ar unwaith y gwnai hon, o bai'r angen, loches ddiogel i mi. Sefais ar y trothwy. Rhwygai'r mellt y cymylau yn ddarnau. Goleuwyd y gymydogaeth, gwrr i'w gilydd, gan y lluched llachar. Neidiai'r taranau yn feddw gan fwrw ergyd ar ôl ergyd mewn nwydau gwyllt. Oni chasglwyd ynghyd yr holl ellyllon a feddai llys Abred at y fath ymosodiad herfeiddiol?

Tybiais yn wir fod y ddaear gyfan yn crynu gan ofn dan y dyrnodiau. Gwyddwn fod lleuad ieuanc y tu draw i'r cythrwfl. Dychmygais i wibiadau'r mellt aflonyddu arni, weithian, nes troi ei gwên yn ŵg. Onid oedd braw, heno, yn parlysu holl gryfder y Cread?

Na. Deng milltir i ffwrdd, mae'n dra thebyg na ŵyr y trigolion ddim am y cynnwrf hwn. A meddwl yr oeddwn innau fod y bydoedd dirifedi dan y fflangell. Bernais gyflwr y Cread oddiwrth fy mhrofiad fy hun.

O'r arswyd! Dacw fellten fforchog, a'i hymylon yn goch y goddaith, yn disgyn i gae ar y llechwedd, gyferbyn. Dyna ergyd,—a llwybr o dân yn aredig y ddaear. Yna, llif gorddyar y daran nes fy myddaru yn llwyr, am)eiliad. Hwn fu dull yr ystorom o gloi'r ddinistr.

A fu bywyd dyn neu anifail yn aberth i grechwen y diawliaid? Dirnadais droeon oni ddeallais fod anterth y ddrycin yn cilio. Elai hi, bellach, ymlaen ar raib dros erwau Iwerydd.

"Diolch," meddwn yn hyglyw. Gwell fu gennyf edrych ar gefn y cymhelri na chiledrych ar ei ddannedd hyll a noeth uwch fy mhen.

Hoi! Wele belen goch o dân yn ymdoddi i donnau mân y weilgi, a thorri yn sŵn deifiol ar fy nghlyw. Gyda hyn, cefais awgrym y perthyn epilog i ddrama ofnadwy y mellt a'r taranau. Disgynnodd glaw yn ddafnau breision o groth y fagddu, gan bistyllu yn ffyrnig. Poerwyd ganddynt ddialedd y cymylau am waith yr elfennau yn eu darnio. Ymhen dwy awr ymataliodd a chefais obaith am gyfle i ddychwelyd adref.

Ond, na. Nid cynt y lleddfwyd y nwydau hyn nag i wynt cryf ruthro'n alaethus megys miloedd o gewri milain. Aeth hanner

awr o reibio heibio, a minnau'n llochesu'r dyn dan gronglwyd y graig.

Yn yr hamdden nesaf, cerddais i gorun y bryn i fwrw golwg ar yr arwyddion.

Ar fyr, cododd egni newydd o'm cylch. Dadebrai'r blodau, y borfa a'r llysiau gan ledu eu persawr i'm ffroenau.

Dychwelai aroglau bywyd o grafangau dychryn.

J.S.R.

Cipdrem ar Hanes Y Faenor.

(*Parhad o rifyn Mai.*)

HYD y gwn i nis gŵyr neb gyda sicrwydd beth ydyw ystyr y gair Faenor. Bu dysgawdwyr lawer, o dro i dro, yn ceisio treiddio i'w wraidd, ond, hyd yma, yn ofer. Dywed y bobl hynny sy'n hoff o astudio miwsig geiriau fod i'r enw dinc gwir bersain a thery ar y glust nodyn swynol a soniarus. Barna un o'n haneswyr y daw y gair o Maenor, sef lle wedi ei amgylchu â gwal neu fur, ond anodd credu y deil y dehongliad hynyna ddŵr. Amhosibl dychmygu magwyr o gwmpas llecyn mor hyfryd o gysgodol.

Myn rhai *philologists* fod i'r enw gysylltiad agos â'r Wyddeleg. Ceir yn yr iaith honno rywbeth yn dra thebig iddo yn y gair *aynor*. O'i gyfieithu golyga *aynor* rhyw lecyn tawel, unig ymhell o sŵn a dadwrdd masnach. Geilw'r Gwyddel y dyn sydd wedi cefnu ar y byd a'i derfysg yn aynorawn. Gair yn gyfystyr ag ef yn y Gymraeg yw meudwy. Tawel a phell wrth gwrs oedd y Faenor yr adeg y soniaf amdani. Aberhonddu, ugain milltir oddiyno, oedd y dref agosaf a dim ond ambell fwthyn frithiai y wlad am filltiroedd lawer.

Hyd at ryw ganrif yn ôl pedair troedfedd o led oedd heol bwysicaf y plwy, a cheirtiau llusg a ddefnyddid gan y ffermwyr mor ddiweddar ag 1825. Mewn gwirionedd mor anghysbell oedd y Faenor yr adeg honno fel y gellid yn hawdd gredu mai meudwyiaid oedd pawb a gartrefai yno. Mae y dehongliad hwn mor gymeradwy i mi a dim sydd eto wedi ei gynnyg am reswm arall. Gwyddom i'r Gwyddelod gartrefu yng Nghymru am gryn yspaid cyn croesi ohonynt i'r Iwerddon, ac iddynt adael ar eu hôl ryw chwe chant o'u geiriau—geiriau a ddefnyddir hyd heddiw yn y Gymraeg.

Ond darllenai yr hen blwyfolion dipyn o ramant i mewn i'r gair. Pan gofir dlysed eu hamgylchedd naturiol iddynt oedd edrych ar

bopeth ymron drwy spectol lliwiog y bardd. Ei ystyr iddynt hwy oedd ardal lle y deuai yr haf gyntaf ac arhosai hiraf! Credent mai ym meysydd gwyrddlas Pontsarn y clywid gwcw gynta'r tymor ac mai i fargod clochdy'r eglwys y ciliai'r wennol ddiwethaf i wledydd cynnes y De. Medd un o'r hen feirdd:

"Toreithiog yw y ddaear
Ac hardd yw bro a bryn,
Mae'n haf ym mro y Faenor
Pan fyddo'r Bannau'n wyn."

Ac yn wir nid heb wirionedd y canwyd felly oblegyd yn aml gwelir blodau llygaid y dydd yn serennu'r dolydd cyn datgloi o'r ffrydlifoedd ar lechweddau'r Corn Du.

Diddorol ydyw sylwi sut y cosbai yr hen Faenoriaid eu troseddwyr. Byddai ganddynt fel rheol, ffordd arbennig eu hun. Effeithiol iawn oedd ambell gynllun o'u heiddo. Rhydd un o'r hen groniclau y stori a ganlyn. Rywdro fe gnoiwyd un o ffermwyr y plwy gan gi gwallgof. Yn ebrwydd ymaflodd *hydrophobia* ynddo ac ymhen ychydig ddyddiau bu rhaid, yn unol ag arferiad yr oed, ei fogi rhwng dau fatres gwely. Teimlodd y weddw yr ysgariad yn angerddol. Dihoenodd yn gyflym a chyn hir gwelwyd torri ei bedd cynnar a gadawodd i alaru ar ei hôl nifer o blant bychain. Cyn marw gwnaeth ei hewyllys a dewisodd gymydog agos yn *executor*. Ymhen ychydig amser aeth y si led-led y plwy fod yr *executor* wedi dianc ag arian yr amddifad gydag ef. Ar waethaf pob ymchwil ni chafwyd afael yn y ffoadur. I'w fawr siom gorfu'r "cwnstab" druan—dim ond un oedd drwy yr holl blwy—gyfaddef ei fethiant.

Aeth blynyddoedd heibio. Ryw fore Sul teg o haf a seiniau dwsmel cloch y Llan yn galw teulu'r ffydd o'r meysydd i'r cysegr gwelwyd dieithr-ddyn yn garpiog yr olwg arno a gofidus ei drem yn araf ymlusgo drwy y caeau porfaog i gyfeiriad yr eglwys. Cafwyd mai y "sectwr du" oedd wedi dychwelyd i ddeisyf am faddeuant. Eithr ni ufuddhawyd i'w gais. Er dwysed ei apêl ni lwyddodd i gyffwrdd a theimladau clwyfedig ei gyn-gyfoedion. Mewn ystafell a berthynai i'r eglwys cedwid lluaws o benglogau (skulls), ac yn yr ystafell honno y rhoddwyd y *sectwr* yn garcharor. Cyn hir wedi ei ollyngiad nychodd yn enbyd. Cyn diwedd yr haf yr oedd yn ei fedd, ond ym mha le ym mynwent y plwy y mae ei "gell bell o'r byd" nis gwyddom. Hyd yn oed yn ei dranc ni chafodd y maddeuant a ddymunodd gymaint am dano, oblegyd pan rowd ef i orwedd ar ei "obenydd oer o bridd" daearwyd ef a'i wyneb tua'r gorllewin a'r dragwyddol nos. Huna'r lleill a'i traed tua'r dwyrain a'r bythol ddydd.

Gelwir ffarm y *sectwr* hyd heddiw yn "Dir y Sectwr Du." A chyda llaw, er cymaint yr erlid amdano, ni bu'r sectwr ymhellach na chyffiniau Penfro.

Yr oedd y cyntaf o Awst yn y Faenor 'slawer dydd yn "ddydd ffair". Hwn oedd Bank Holiday y plwy, ond nid aeth y bobl i "lan y môr". Yn hytrach dringent i ben y Bannau i geisio profi a oedd sail i un o aml draddodiadau'r cylch.

Ynghysgod y Corn Du ceir llyn a elwir yn Llyn Cwm Llwch. Yn ei ymyl y bu yn cartrefu am flynyddoedd yr enwog Dr. Sion Dafydd Rhys. Credid gynt y trigai yn y llyn Faer Forwyn, a chyda'r bwriad o'i gweled, dringai llu o'r plwyfolion bob haf i'w glan. Weithiau, medd y stori, gwrthodai'r Forwyn godi o'r dyfnder ac i'w haflonyddu teflid cerrig enfawr i'r dŵr. Ryw ddiwrnod, a'r llyn yn berwi yn ei chynddaredd, wele'r Forwyn yn ymddangos ar wyneb y lli ac mewn gwaedd groch yn cyhoeddi'r bygythiad a ganlyn :

"Os na chaf lonydd yn fy lle
Soddaf gymoedd oll y De ;
Aberhonddu—coeliwch fi—
Foddaf yn y dyfroedd du."

A chyda ysgrech aflafar a barodd arswyd i bawb a'i chlywodd diflannodd i waelodion pygddu'r llyn.

(*I'w barhau*).

MAB Y MYNYDD.

*Yr Ewyllys i Orchfygu.**

Gan y Parch. D. EVANS.

FE amrywia amgylchiadau o oes i oes ac o wlad i wlad yn fawr iawn. Y mae gwahaniaeth mawr, er enghraifft, rhwng amgylchiadau ein hoes a'n gwlad ni ac amgylchiadau oes a gwlad Iesu. A chyda'r newid o'r amgylchiadau, fe gyfyd cwestiynnau newydd a ofyn—hyd yn oed a hawlia—ein sylw.

Yn hanes y canrifoedd, cawn engraifft ar ôl engraifft o'r cyfnewidiadau hyn, ac o'r gwthio o hen gwestiynnau i'r cysgodau gan gwestiynnau newydd.

* Anerchiad a draddodwyd yng Nghyfarfod "Undeb y Cynfyfyrwyr" yng Ngholeg Caerfyrddin, Ebrill 19eg, 1932.

Cofia rhai o honom, yn ddiau, am oes y dadleuon diwinyddol. Cwestiynnau diwinyddol oedd cwestiynnau'r dydd yr adeg honno.

Y mae diddordeb y dadleuon hyn, bellach, wedi diflannu ; a chwestiynnau eraill, a ddeil berthynas agos a hawddfyd presennol dyn, nid mewn ystyr faterol yn unig, eithr mewn ystyr foesol ac ysbrydol hefyd, yw'r cwestiynnau a'n blina ni.

Daw adeg, o bosibl ac yn debygol, pan wthir y cwestiynnau hyn eto ar y neilltu gan gwestiynnau eraill o natur hollol wahanol.

Eithr er y duedd hon at newid, nid yw'r cwestiwn "Beth a debygwch chwi am Grist ?" wedi colli na'i diddordeb na'i bywsigrwydd. A chredaf mai cynyddu, ac nid lleihau a wna ei ddiddordeb a'i bwysigrwydd yn y dyddiau a ddaw.

Beth, ynteu, yw'r ateb iddo ? Anwybyddu'r agwedd ddiwinyddol o'r cwestiwn a wnaf yn awr. Y mae iddo ei agwedd ddiwinyddol ; ac ni hoffwn i fychanu gwerth a phwysigrwydd yr agwedd hon ; yn hytrach, eu pwysleisio a hoffwn wneuthur. Eithr mater personol yw hwn, i bob dyn ei benderfynu drosto'i hun.

At agwedd gymdeithasol y cwestiwn y cyfeiriaf yn awr. Un o'r agweddau pwysicaf yw hwn—pwysicaf, am y rheswm yr ymwna â hawddfyd uchelaf gwledydd a chymdeithas y dyn.

A'm ateb i iddo ydyw mai yn Iesu Grist y mae unig a phennaf obaith y byd dynol. Ac ni chredaf lai na chaf eich cydsyniad unfrydol i'r ateb.

Lluosog yw'r cwestiynnau a flina ein dydd ni, megis y berthynas rhwng gwledydd a'i gilydd, rhwng meistr a gweithiwr, rhwng gwahanol ddosbeirth o gymdeithas a'i gilydd, rhwng dyn a dyn.

Efallai y dywed rhywun mai cwestiynnau gwleidyddol yw rhai o honynt. Eithr pwy a fedr dynnu'r llinell a wahana'r gwleidyddol oddiwrth y crefyddol. Amhosibl. Dylai crefydd gael mynediad rhwydd i mewn i holl gysylltiadau bywyd dyn, i'r diben o'u trawsffurfio.

Ymha le, ynteu, y ceir y moddion a fedr gynhyrchu'r berthynas iawn yn y cysylltiadau a enwyd, yn ogystal a chysylltiadau eraill nas enwyd.

Yr ateb ydyw—yn Iesu—yn unig.

Yn brin iawn y mae hyd yn oed y byd Cristnogol wedi dysgu'r wers hon eto, er bod yn agos i ddwy fil o flynyddoedd rhyngom a'r Athro.

Oblegid rhy wir ydyw mai cyfraith y "llygad am lygad" yw'r gyfraith boblogaidd eto i fesur gormodol. Cyfraith dda ddigon oedd hon yn nyddiau babandod y byd dynol. Ac nid yw ei defnyddioldeb wedi darfod eto.

Eithr nid hi a ddylai gael y flaenoriaeth heddiw ; yn hytrach cyfraith cariad Crist. A thra ffyddiog wyf y daw'r gyfraith hon i'w theyrnas yn raddol—y daw'r ddynolryw yn gyffredinol i weld mai hi yw'r gyfraith oreu yn holl gysylltiadau bywyd.

Dwyn y cyflwr gwell hwn i fod yw gwaith yr Eglwys. Gwaith arbennig yr Eglwys yw hwn. Dyna ydyw un o'r rhesymau pennaf dros ei bodolaeth. Ac wrth y gair Eglwys golygaf nid un gangen neilltuol o honi, eithr yr Eglwys gyfan, gyffredinol. Gwneir hon i fyny o lawer iawn o ganghennau.

Tybir gan lawer mai ysmotyn ar Gristionogaeth yw'r ymraniadau hyn ; o leiaf, os nad ar Gristionogaeth, eto ar Gristionogion. Ni raid i hyn fod felly.

Ymhellach, onid naturiol ydyw'r ymrannu o'r Eglwys i ganghennau. Y peth pwysig ydyw—bod ysbryd cariad yn ffynnu rhwng y canghennau, gan eu cadw mewn undeb a'i gilydd ac a'r Athro ei hun.

O edrych ar y mater yn y goleu hwn, ymddengys i mi mai gwan yw'r gobaith y daw adeg yn fuan pan gyfunir y rhaniadau, fel na fydd ond un Eglwys ddiranedig. Ymhellach, amheuaf yn fawr a fyddai hynny na mantais nac ennill.

Os cywir yr olwg hon, onid diamcan yw'r gri am uno o'r enwadau a glywir o rai cyfeiriadau yn y dyddiau hyn ? Amrywiaeth ddiderfyn a nodwedda natur. A pham lai na ellir caniatau'r un fath ar amrywiaeth yn y mater o gyhoeddi'r genadwri Gristionogol ?

Gwaith yr Eglwys, meddaf eto, ydyw dwyn y byd i weld mai yn Iesu Grist y mae ei obaith goreu. A chyn y gall wneuthur ei gwaith yn effeithiol, rhaid ydyw iddi gael ei thrwytho'n drwyadl ag ysbryd cariad Crist a esgor ar y cydweithrediad y sydd mor hanfodol i lwyddiant.

Bu aml i adeg o wendid bywyd, o gysgadrwydd, o ddifaterwch, ac o ddigalondid, yn hanes yr Eglwys.

Bu aml i adeg hefyd, o fywyd cryf, o ddeffroadau pell-gyrhaeddol eu heffeithiau, o weledigaeth clir i galon gwirioneddau ac egwyddorion, ac i gyfrinion bywyd goreu'r enaid. Ni raid inni fynd tu allan i ffiniau ein cenedl fechan ni—cenedl y Cymry—cyn cael o honom enghreifftiau o bob un o'r ddwy adeg.

Ar un llaw, hanes torcalonnus i'r eithaf ydyw hanes Cymru adeg John Penri. Ar y llaw arall, hanes a ddeffry lawenydd yng nghalon pob Cymro ydyw hanes diwygiadau crefyddol y ddwy ganrif ddiweddaf, a deffrodd Gymru o un cwr i'r llall o honi, gan wneuthur cenedl newydd o'n cenedl. "Eraill a lafuriodd ; ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt."

Sylwais eisioes y nodweddir hanes yr Eglwys gan aml i adeg o ddigalondid. Ymddengys i mi ein bod ynghanol adeg o'r fath hyn yn ein dyddiau ni.

Onid sŵn cwyno a glywir o bob cyfeiriad : di-ynni yw bywyd yr Eglwysi ; oeraidd yw'r brwdfrydedd ; yn wannaidd y cyn y tân ar yr allor ; anwybyddu sefydliadau crefydd i fesur cynhyddol a wna'r dorf.

Onid rhywbeth tebig i hyn yw'r gri a glywir? Ac oni roddir mynegiad aml i'r gri gydag acen a ymyla ar fod yn gwynfannus?

Gwir ydyw bod yr amser yn galed, a bod y sefyllfa yn un a bair ryw fesur o bryder. Eithr onid oes gormod o duedd i edrych ar ochr dywyll y darlun, i roddi ffrwyn i'r acen gwynfannus?

Oni ellir cymryd dalen allan o hanes y proffwydi Beiblaidd? Nid amserau hawdd, mewn un modd, a fu eu hamserau hwy. Eithr ni chollasant mo'u ffydd; nis digalonnwyd gan galedi'r ymdrech; "fel hyn y dywed yr Arglwydd," a fu byrdwn eu cenadwri hyd y diwedd. Oes gan y proffwydi Beiblaidd ddim un genadwri i ni heddiw yn ein hamgylchoedd di-galon? Oes, yn sicr; a chredaf y gellir ei symio i fyny fel hyn: "Os yw'r amserau'n galed; os yw'r awyrgylch yn dywyll; os yn wannaidd y cyn y tân ar yr allor; os eich anwybyddu a wna'r dorf, cedwch eich ffydd yn fyw a chryf, dyfnhewch hi i'r man eithaf posibl, gwrandewch ar a ddywed yr Ysbryd wrthych yn ystafelloedd mewnol, cuddiedig eich enaid; yn fyr, meithrinwch "Yr Ewyllys i orchfygu".

Ie, meithrinwch yr ewyllys i orchfygu; cynnwys yr ymadrodd byr hwn fyd o genadwri i'r eglwys heddiw. Wn i ddim pwy a roddodd fynegiad i'r ymadrodd hwn gyntaf. Credaf mai un o blant y rhyfel mawr ydyw. O leiaf, dyma'r adeg gyntaf iddo syrthio ar fy nghlustiau i.

Ymadrodd ydyw a chwaraeodd ran bwysig yn yr ornest ddinystriol, oblegid cryf a fu'r "Ewyllys i orchfygu" ymhob un o'r pleidiau a fu'n cyd-ymgais am y fuddugoliaeth yn ystod y pedair blynedd aethus hynny. A chredaf mai cryfder "yr Ewyllys i orchfygu" a berodd i'r gyflafan bara cyhyd.

Efallai nad dymunol mo'r gair "rhyfel" fel disgrifiad o waith yr Eglwys. Eithr dyna beth ydyw, dywedwn ni a fynnom, sef rhyfel. Ac yn y rhyfel hwn, fel yn y rhyfeloedd y ddaear, fe chwery yr ysbryd a lywodraetha'r rhyfelwyr ran na ellir yn hawdd mesur ei werth.

O ymollwng yn yr ysbryd, o edrych yn ormodol ar ochr dywyll y darlun, fe roddir i'r galluoedd gwrthwynebol fantais na fedr dim arall ei roddi iddynt.

A thra sicr ydyw na fyddant hwy yn ôl o gymryd gafael ar y fantais. Nid argyfwng hollol ddiobaith, wedi'r cyfan, mo'r argyfwng yr â'r byd crefyddol trwyddo. O daflu golwg dros ein hamser, oni welwn arwyddion, gwan o bosibl, amlwg er hynny, bod toriad gwawr dydd gwell yn agoshau.

Ac nid tu fewn i'r eglwys yn unig y gwelir yr arwyddion hyn, eithr tu allan hefyd—braidd na fedraf ddywedyd bod yr arwyddion tuallan i'r Eglwys yn fwy amlwg hyd yn oed na'r arwyddion tu fewn iddi. Onid gwir ydyw bod y fateroliaeth hagr a ffynnai hanner canrif yn ôl yn farw? Fe ŵyr pob un y sydd wedi darllen tipyn o lenyddiaeth wyddonol ddiweddar mai gwir ydyw.

Ie, yn sicr, safle gyfoethog o ddiddordeb, ac o obaith yw'r safle. A braint a fydd i'r genhedlaeth ieuanc i gael chwarae eu rhan yn y ddrama, i'w dwyn i derfyn hapus.

Beth, ynteu, a fedr yr Eglwys wneuthur i ddwyn i fod y deffroad y dyheir am dano? Rhodded i ysbryd "Yr Ewyllys i orchfygu" ei le priodol: dyna'r ysbryd a ddwg fuddugoliaeth.

A phe gallwn, yn rhywfodd, yrru cenadwri adref at bob aelod o bob eglwys Gristionogol trwy'r holl fyd, dyma a fyddai—"Meithriner yr Ewyllys i Orchfygu."

D.E.

Mrs. J. D. Lewis.

BLIN fydd gan ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD o syllu ar y llun hwn, ac o ddarllen hyn o deyrnged, ddeall am farw Mrs. J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

Ar ambell achlysur medrir mynegi teimladau'r galon yn hyotlach trwy ymatal, a phryd hynny y mae'r geiriau fel pe'n cronni yn y dyfnder, ac y mae deigryn a distawrwydd yn awgrymu'r cyfan.

Dyna fel y teimlaf i am y tro, felly, cofied y darllenydd mai haws beirniadu'r llun na'i dynnu.

Ysgrifennaf am fy mod i, yn ogystal â'r YMOFYNNYDD, yn drwm yn ei dyled. Yn wir, ni charwn weled rhifyn melyn yr Haf yn myned i law'r darllenydd heb fod rhwng ei gloriau nodyn syml amdani hi.

Yr oedd Mrs. Lewis, fel pob claf yn dyheu am gael gwella, ac yn disgwyl y tywydd teg. Daeth Mai gyda'i gân a'i flodau, ond yn lle'r heulwen, y storm a ddaeth i Gomerian. Heddiw, erys bro gyfan yn ei siom a'i cholled o golli'r galon garedig ac un o'r cymeriadau gorau a fu'n cerdded Dyffryn Teifi erioed.

Un o wroniaid y mannau cudd ydoedd. Un yn rhoi yn hael, ond yn rhoi yn ddistaw bach pan fyddai neb yn gweled na neb yn clywed.

Nid oes a ŵyr am y rhwyg a'r golled ond y sawl a wybu am ei chalon a'i charedigrwydd, ei chwrteisi a'i haelioni.

Gair teg a wna gariad hir, meddai un o'r hen feirdd. Gair felly ydoedd ei heiddo hi, ac nid yw'n rhyfedd iddi ennill calon pawb a ddaeth i gyffyrddiad â hi, ac iddi lanw'r cylch yr oedd yn byw ac yn troi ynddo.

Benyw ddarbodus, ddarllengar, a gweithgar ydoedd. Carai ddarllen stori ac emyn. Carai ddarllen ei Beibl, gwyddai ei Beibl, ac yn ben ar y cwbl yr oedd yn byw iddo. Yr oedd yn grefyddol yng ngwir ystyr y gair. Meddyliai'r byd am Benybont a'r Bedyddwyr, ond nid oedd enwad yn gwbl ganddi hi. Yn sicr, symudwyd un o'r hen bileri cadarn na ddeuir o hyd iddynt ond ar dro siawns.

Gweithiodd yn ddiwyd o grud i fedd. Do, gweithiodd nes daeth Gomerian i sylw'r genedl. Hoffwn ei gweled yn y siop. Gwyddai'r ffordd i galon cwsmer. Hwyrach nad oedd yn gwybod am bob llyfr a holl bethau'r fusnes, ond mawr oedd ei gofal a'i gwybodaeth, serch hynny. Yr oedd yn garedig yno, yr oedd yr un mor garedig yn y gegin. Estynnodd yn hael i dlawd a gwan dros y cownter, ac yr oedd lle a chroeso i bawb wrth ei bord.

Bu farw ei phriod Mr. J. D. Lewis, yn 1914. Er na feddai hi ar adnoddau y gŵr dawnus ac athrylithgar hwnnw ymhob dim, eto, fe lwyddodd i gadw'r siop yn agored a'r peiriannau i fynd.

Bu'n fam dyner iawn, a gwelodd ei phlant yn myned ati o ddifri ym myd busnes gan ehangu'r gorwelion.

Yr oedd fel brenhines yn eu canol, a'r pedwar yn gwrando arni, yn ei charu, ac yn ei gwylio rhag pob cam.

Gresyn i Fai fod mor greulon. Ond dyna.

"Fal y daw i flodeuyn
Ddiwedd, felly diwedd dyn."

Nid oes angen na maen na mynor i gadw ei henw yn fyw. Yr oedd hi yn un o'r rhai prin hynny a gododd iddi ei hun gofgolofn hardd. Er bod yr aelwyd a'r siop yn wâg, a'r wên garedig a'r galon fawr ynghlo; fechgyn hoff, cewch chwi yn eich dyddiau blin—falm i liniaru'r hen glwy o edrych i gyfeiriad y golofn a edrydd y cyfan.

Bu'n dyner yng Ngomerian,
A thrwy ei hoes gwnaeth ei rhan. I.J.

Y Syniad o Dduw.

Gan yr Hybarch A. A. DAVID, D.D., Esgob Lerpwl.

IV.

DUW YNG NGHRIST.

GWELENT Ef yn wynebu awdurdodau eglwysig ei ddydd, un o'r ychydig ddosbarthiadau o bobl a gynhyrfent ei ysbryd, am y llesteirient bob tyfiant—Pobl hollol fodlon arnynt eu hunain ac a'r gwirionedd fel y gwelent hwy ef, ac yn benderfynol o beidio tyfu eu hunain na gadael i eraill dyfu. Yr oedd arnynt ofn rhyddid, a thrwy eu ffurfioldeb cul deddfol, llwyddasant i'w gau allan yn hollol. Yr oedd Ef yn eu herbyn hwynt. Nid oedd unrhyw obaith yn ymagor ar y llwybr yna. Ac y mae Duw ymhob cenhedlaeth yn erbyn y rhai a wrthyd ryddid a llesteirio tyfiant. Sylwn arno Ef yng nghwmni rhai y rhoddwyd yr enw iddynt (nid ganddo Ef) o "bechaduriaid," pobl y gwnaeth eu camweddau hwynt yn atgas i'w cymdogion. A dysgwn nad yw hanes neb fel y gŵyr eraill am dano mor ddrwg fel nad oes obaith iddo yng nghalon a meddwl Duw. Neu gwelwn Ef yn ymwneud a dynion, un ar ôl un; a Sacheus, er engraifft, a gondemnid wrth bob safon a fodolai'n ei oes Ef; ac eto nid yw Iesu yn aros iddo ef ymostwng. Gwelai ynddo ef ryw werth, rywbeth y gallai Ef ei ddefnyddio, a cheisia ei gyfeillgarwch. Yma y gwelwn Dduw wyneb yn wyneb a'r unigolyn. A fedrwn gymodi ymagweddiad fel hwn a mawredd anfeidrol y Goruchaf? Mae'n rhaid inni, oblegid dengys Iesu'n glir mai Un felly yw. Daeth diwrnod pan yr ymgeisiai ei gyfeillion, nid am y tro cyntaf, am y flaenoriaeth, a fesurent hwy gyda'r rhelyw o'r ddynoliaeth wrth safon a ystyrrid fel yr unig safon o fawredd oedd a gwirionedd ynddi. Dyry'r Iesu safon newydd iddynt. "Chwi a wyddoch fod y rhai a dybir eu bod yn llywodraethu ar y cenhedloedd yn tra-arglwyddiaethu arnynt, a'u gwŷr mawr yn tra-awdurdodi arnynt." Cyfyngid anrhydeddau uchaf y byd i'r rhai a fedrai ddarostwng y nifer liosocaf i'w hewyllys. "Ond nid felly y bydd yn eich plith chwi: eithr yr hwn a fynno fod yn fawr yn eich plith, bydded weinidog i chwi. Canys ni ddaeth Mab y Dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu." Gwasanaethwr i bawb yw'r Hwn a ddaeth i ddatguddio'r Tad.

A ddyrchafodd y byd, hyd yn oed y byd Cristionogol, ei lygaid eto i'r mawredd newydd hwn sydd yn Nuw? Onid yw'n syniad

arferol o'i arucheledd yn rhwym o hyd wrth ein hen syniad am fawredd a gallu? Y mae gennym eto i ddysgu oddiwrth Iesu fod gwasanaeth, yn lle bod yn anghyson a mawredd, yn rhan o'i graidd. Yn wir, dechreuasom gymhwyso'r gwirionedd hwn at y naill a'r llall. Yn yr Eglwys a'r Wladwriaeth ein dynion mwyaf yw'r rhai a ymgymerant a'r llafur caletaf ac a ddygant y beichiau trymaf. Ond araf ydym i gymhwyso hyn at ein syniad o Dduw. Am ganrifoedd dibynnai Ei gydweithwyr yn ddifloesgni ar nerth braich ac ar ofn. Dywedent—"Mae Duw'n hollalluog. Ni all dim yn y pen draw wrthsefyll ei allu. Y mae gennym ninnau hefyd allu—a defnyddiwn ef drosto Ef." Mewn canlyniad cashaent, bygythient, dirwyient, carcharent, dirdynnent a lladdent, y naill y llall, o gariad at Dduw. Gwyddom mai camgymeryd wnaent. Rhyfeddwn at eu cyfeiliornad. Ond a ddywedwn ni hyd yn oed yn awr, "Mae Duw yn gariad perffaith. Ni all dim yn y pen draw wrthsefyll ei gariad. Y mae gennym ninnau hefyd gariad. Ni a'i defnyddiwn ef drosto Ef."

Gwnaeth y gorchymyn mawr a roddodd Iesu inni, ac nid oes un arall mwy, fwy na dodi i lawr egwyddor i ni fyw wrthi. Datguddiodd egwyddor bywyd Duw. Fel yr ŷm yn barod yn ein perthynas a'n gilydd i anturio yn achos cariad, gallwn yn hawdd ddarganfod y cyfiawnha egwyddor Crist ei hunan yn y byd hwn. Ond hyd nes y gwel dynion Dduw ei Hun yn gweithredu mewn cariad tuag atynt, ni weithredant yn ewyllysgar yn yr ysbryd hwn tuag at ei gilydd. Oblegid yn y pen draw ymddyga dyn tuag at ei dyg-ddyn yn gyson a'i gred o'r modd yr ymddwyn Duw tuag ato ef.

Meddyliai Iesu mewn darluniau, a daeth llawer o'i ddysgeidiaeth atom trwy yr un cyfrwng. Ceir un yr ysbrydolodd Ef ei was i'w dynnu ar ein cyfer. "Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo. Os clyw neb fy llais ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef—Duw, uwchlaw popeth, trwy bopeth, ym mhopeth, yn ein ceisio, ac yn disgwyl nes y derbyniwn Ef atom. Yma y datguddir dirgelwch y mawredd y geilw Duw arnom i'w geisio trwy ddangos ei berffeithrwydd ynddo Ef ei Hun. Ac yn sicr, ni roddwyd erioed anrhydedd mwy i greadur o ddyn nad yn y gwyleidd-dra dwyfol hwnnw a'i ceidw Ef rhag gwthio ei Hun ar enaid dyn, pwy bynnag fo.

Ond yn unig wrth ei fawrygu Ef gyda'r amgyffrediad uchaf y gall ein rheswm a'n dychymyg ei gyrraedd y medrwn ni fesur, os mesur hefyd, brydferthwch anrhaethol yr amynedd a'r gostyngeiddrwydd hynny sy'n ffurfio gwir fawredd Duw.

Adolygiadau

AR LYFRAU A GEIR O ESSEX HALL, LLUNDAIN.

UNITARIAN HYMN-WRITERS by H. W. Stephenson, M.A. Pris 3/6.

Ychydig amser yn ôl yn y *Drych* Americanaidd darllenais ysgrif ar Ddeuddeg o Emynau goreu Cymru a Lloegr. Rhywbeth yn debig yw'r gyfrol hon a chan i mi rywbryd draethu ar Emynau ac Emynwyr ein henwad yng Nghymru y mae'n naturiol i mi edrych ar y gyfrol hon gyda diddordeb. Cofiaf i mi hefyd ddifynnu Dr. Francis G. Peabody fel yntau :

"Some forms of faith have borne as their flower a special quality of sacred lyrics with a fragrance of their own. The heart of Methodism is disclosed in the hymns of the Wesleys ; the nature of Evangelical piety is laid bare in the hymns of Watts and Doddridge ; the inner faith of the Moravians is told in their glowing hymns, and in the hymns of Keble and Newman is the characteristic note of the Anglican Church. Tried, then, by this interior test, what is the spirit of the Unitarian tradition ? No one can fail to see that its religious life has altered itself in a lyric. Expression of singular freshness and beauty, touching in many moods and keys one dominating note. *It is a hymnology of the Spirit, the song of those who rest within the Everlasting Arms.*" Cyfrol o 164 tudalen yn cynnwys rhyw fraslun ynghyd ag awgrymiadau am ryw ugain o Emynwyr Undodaidd Lloegr a'r Amerig ydyw. Nid llyfr ysgolheigaidd sych ond llyfr poblogaidd a'i fwriad yw ennyn cariad at Emynwyr ac Emynau. Ni ddywedaf nad yw rhai o'r Emynwyr wedi cael eu lle am fod yna rhyw "halo" o'u cylch. Nid am eu hemynau y cofir Parker na Martineau nac un neu ddau arall, ta waeth. Y mae'n dda cofio y torrai'r teimlad drwodd ambell dro yn fôr o gân.

Y mae'n llyfr diddorol ac fe fyddai'n werth i bob Undodwr o leiaf ei ddarllain. Y mae yr awdur mewn cariad a'i waith. Y mae'n dda gwybod am fywyd John Jones a ganodd "Come Kingdom of our God," Sir John Bowring "In the Cross of Christ I Glory", Sarah Flower Adams "Nearer my God to thee", Blatchford "Softly the silent night", Dr. Hosmer

"I ask not for before to see
But take in trust my road ;
Life, death, and immortality
Are in my thought of God."

Neu Tarrant,

"O Heart Divine, that e'en on me
Hast set thy Love's prophetic seal,
In lowliness I come to thee
Thy grace to know, my need to feel.

O ddarllain y gyfrol deuwn i deimlo fod neges a fedr beri i ddyn arllwys ei galon o flaen Duw gyda'r fath deimlad a meddwl yn neges y medrwn ninnau falchio ynddi a'i chofleidio yn anwylach nag erioed. Pryner y gyfrol a darllener hi rhag i'n gwaed oeri.

* * *

(Fe ymddengys Adolygiadau pellach ar Lyfrau o Essex Hall, Llundain, yn y rhifynnau nesaf).

Pwyllgor Gweithiol y Gymdeithas.

CYNHALIWYD cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yng Ngalltyblaca nawn Llun, Mai 23, pryd yr oedd yn bresennol gynrychiolwyr o Ciliau, Rhydygwin, Alltyblaca, Capelybryn, Capelycwm, Bwlchyfadfa a Llwynrhydowen.—Gwelir felly fod 6 o gynulleidfaoedd heb ddanfon cynrychiolwyr—ynghyd

a'r Parchn. S. E. Bowen (yn y gadair), T. O. Williams, M.A. a E. O. Jenkins.

Wedi darllen cofnodion y Pwyllgor blaenorol cafwyd anerchiad gan y Parch. T. O. Williams, M.A. ar "Cyflwr ein heglwysi". Tynodd Mr. Williams ddarlun lled ddu i gychwyn —yna rhoddodd ffigyrau i wireddu ei osodiadau. Gafaelyd dipyn yn llym o bosibl wnai yn ei anerchiad ond cytunai pawb ei fod yn dyweud y gwir ac yn dyweud gwir ag y mae galw mawr am ei ddyweud.

Teimlid y dylasai'r gwirioneddau a draethai gyrraedd nid yr ychydig ag oedd yn bresennol ond holl aelodau ein cynulleidfaoedd. Yn hytrach na gofyn i Mr. Williams adael i gynwys ei anerchiad ymddangos yn Yr Ymofynnydd gofynwyd iddo ymweled âg Eglwysi Sir Aberteifi yn weddol fuan a thraethu ei neges wrthynt. Addawodd wneud. Hyderwn y gwna pob Eglwys geisio bod yn bresennol yn y gwasanaeth ar Sul ei ymweliad.

Siaradwyd ymhellach gan y Cadeirydd; Evan Hughes, Ciliau; E. O. Jenkins; D. Saunders Davies a David Hughes, Rhydygwin; Mrs. Jones, Alltyblaca; Griffith Jones, Capelybryn; Mrs. Williams, Capel-y-cwm; yr oll o'r farn fod cynwys yr anerchiad yn amserol ac o bwys.

Awgrymai Mr. Williams: (1) Y dylasai'r Pwyllgor hwn gael Cadeirydd Swyddogol am flwyddyn neu ragor; (2) Gael ei gynnal ar gylch fel ag i ennill diddordeb y gwahanol Eglwysi.

Penderfyniadau y cyfarfod oeddynt: (1) Fod Mr. Williams i ymweld â'r Eglwysi fel y crybwyllwyd uchod; (2) Fod ymdrech i gael ei wneud i gael adroddiadau (cyfrifon) blynyddol yr Eglwysi am y flwyddyn hon (1932) wedi eu cyhoeddi yn un llyfryn; (3) Ein bod yn danfon neges o gydymdeimlad i'r Parch. T. Arthur Thomas yn ei afiechyd ynghyd a'n dymuniadau gorau am wellhad buan; (4) Fod dau wasanaeth i'w cynnal yng Nghwmwrdu yr Haf hwn i ddathlu canmlwyddiant yr achos; y Parchn. S. E. Bowen a E. O. Jenkins i bregethu a'r Parch. T. Arthur Thomas i weinyddu'r Cymun.

Bu Mrs. Bowen a Miss Mary Williams, Awelfryn mor garedig a darparu pryd melus o de i'r ymwelwyr, a diolchwyd yn gynnes iddynt am dano.—E. O. Jenkins.

Priodasau.

Mai 14, Ynghapel Pisgah, Talgarreg, o flaen y Cofrestrydd, Mr. Johnny Jones, Crugyreryr-isaf a Miss Annie Davies, Cornmount, Talgarreg. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Rhydderch, B.A., Seion, Llandysul a E. O. Jenkins, Capel-y-fadfa. Eiddunwn iddynt bob daioni.

Yng Nghapel Pantydefaid, dydd Sadwrn, Mai 28ain, priodwyd Mr. Thomas Jones, Felinbele, Pencader â Miss Minna Evelyn Richards, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Evan Richards, Ardmore, Llandysul. Y Prifathro J. Park Davies, Caerfyrddin, yn gwasanaethu.

Marwgofion.

Dydd Llun, Mawrth 21ain, bu farw Gwenllian Lewis, 11, Mount Pleasant, Trecynon, yn 70 oed. Un o ferched Cynonwyson ydoedd hi, a gweddw Lewis Lewis y Gog, yr hwn a fu farw mis Medi diweddaf. Ni fu Mrs. Lewis mewn iechyd da ers rai misoedd, er hynny nid oedd neb o honom wedi breuddwydio y byddai hi yn dilyn ei gŵr cyn gynted. Yr oedd hi yn wraig o synnwyr cyffredin cryf, yn gymydog o'r fath oreu, ac yn aelod ffyddlon yn yr Hên Dŷ Cwrdd. Yr oedd ganddi barch diffuant tuag at yr hên achos. Ni ellir cyfrif y golled ar ôl ffyddlon-

iaid fel hyn a gwelir eu heisieu yn yr hên gapel. Gresyn na chaem eraill i lanw y bylchau hyn. Estynnwn i'r ferch Mrs. D. R. Davies ac i'r mab Mr. T. J. Lewis ein cydymdeimlaf llwyraf. Claddwyd Dydd Iau, Mawrth 24ain yn y gladdfa gyhoeddus, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Ar Fawrth 29ain, yn 70 mlwydd oed, bu farw Mrs. Elizabeth Jones, Newgate, Rhydowen. Un o blant diwyd, cryno, Dyffryn Cletwr ydoedd hi, ac hyd y gwyddom ni bu allan rhyw lawer o'i olwg erioed. Gwyddai o'i mebyd cynnar am waith, ac am frwydr bywyd, a brwydrodd yn ddewr trwy gydol ei hoes yn erbyn llawer llif. Cadwai siop fechan, a thrwy ei chyfrwng hi i raddau pell y llwyddodd i gael dau pen y llinyn ynghyd. Yr oedd Bet mor gywir a gonest â chlorian fach ei siop. Os cyfyng oedd ei byd bach hi, a'i gwybodaeth ohono yn brin, fe'i llanwodd fel mam dda ac fel cymydog tawel a di-stŵr. Yr oedd drws y Newgate yn agored bob amser, ond odid, ac anodd ydoedd pasio heibio heb droi i mewn. Bellach, y mae'r drws wedi'i gau, y siop fach hithau wedi'i chwalu, a dim ond atgof a gwacter yn aros o golli'r cyfan. Cafodd gystudd caled, ond gofalwyd yn dyner amdani gan ei phlant. Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo fan y Parchn. E. O. Jenkins, a J. Rhedynog Evans, Curad. Gadawodd dair merch, wyrion, tair chwaer, a llawer o berthynasau eraill mewn siom a galar o'i cholli.

Ar y 13eg o Fai, yn 90 mlwydd oed, bu farw Elisabeth, gweddw Evan Davies, y gof, Cwrtnewydd. Gwraig bwyllog, weithgar, a darbodus ydoedd hi, ac yn y cylch bychan y troai ynddo, yr oedd iddi air da. Merch ydoedd i'r diweddar Ddaniel Jones o Lety'rwennol, un o gychwynnwyr y mudiad dros ddwyn crefydd fwy rhydd i'r ardal. Pan gorfforwyd yr achos yng Nghapel-y-bryn yn eglwys ym Mai 1867, yr oedd hi yn un o'r 30 cyntaf a dderbyniwyd i mewn gan y diweddar Barch. John Davies, Alltyblaca; bellach, wedi ei marw hi, nid erys un o'r deg-ar-hugain hynny yn fyw, hi oedd yr olaf ohonynt. Mwynhaodd iechyd rhyfeddol o dda yn ystod ei hoes faith, ond effeithiodd tywydd caled y gaeaf diwethaf yn andwyol arni; gwanychodd ei nerth yn y gwanwyn, a diffygiodd yn llwyr ar drothwy'r haf. Erys ar ei hôl un mab, Cledlyn Davies, pum ŵyr, a'r un nifer o or-wyrion; hefyd lys-ferch, Margaret Davies, Glanrhyd; a brawd, Rees James, Y Felin. Anghyoedd oedd ei hangladd ym mynwent Capel-y-bryn ar Fai 17eg, pan wasanaethwyd yn fyr ac yn syml yn y tŷ ac ar lan y bedd gan y gweinidog y Parch. S. E. Bowen.

Am Lisa Go, melys i gyd—yw'r cof,
Hen-wraig gall, a diwyd;
Einioes hir hon a sieryd
O eigion bedd. Gwyn ei byd.

Cledlyn.

Nodion yr Eglwysi.

BWLCHYFADFA A LLWYNRHYDOWEN.—Yn ddiweddar cynhaliwyd "Social Teas" yn y ddau le yma o dan nawdd Urdd y Benywod i orffen gwaith tymor y gaeaf. Cafwyd dwy noson ddymunol iawn. Cynhelir y Cyfarfodydd Misol ar nos Sul ymlaen drwy'r flwyddyn.

CAPEL-Y-BRYN.—Ar y dydd cyntaf o Ebrill o dan nawdd y Gymrodoriaeth ac Urdd y Benywod cafodd yr Ysgol Sul ac aelodau'r gynulleidfa wledd o de. Gwnaeth y boneddigesau ddarpariadau rhagorol iawn a llawen oedd gweled llawer o gyfeillion o'r cylch yn bresennol. Yn yr hwyr rhoddodd aelodau'r Ysgol Sul Gyngerdd diddorol ac o safon uchel. Yn ddiameu yr oedd yr athrawon wedi bod yn llafurio

yn galed i wneud Cyngerdd mor dda. Cadeiriwyd gan M. Ll. G. Williams, Ysw., U.H., Penralltnewydd, ac arweiniwyd gan y Gweinidog.

ALLTYPLACA.—Dydd Gwener, yr 8fed o Ebrill oedd adeg gwyl dê flynyddol yr Ysgol Sul a'r gynulleidfa a derbyniwyd hi eleni oddiwrth y cynghorwr M. Ll. G. Williams, U.H. a Mrs. Williams, Penralltnewydd—a chynorthwywyd wrth y byrddau gan foneddigesau'r gynulleidfa. 'Roedd pob peth wedi ei ddarparu yn y modd goreu, a gofalodd Mrs. Williams hefyd yn garedig iawn am yr aelodau oedd yn methu dod i'r wledd. Yn yr hwyr gwnaeth aelodau'r Ysgol Sul eu gorau i ddatgan eu diolchgarwch i Mr. a Mrs. Williams drwy roddi Cyngerdd hyfryd iawn—ac mewn araith bwrpasol gwnaeth y Gweinidog yr un peth ar ran y gynulleidfa.

URDD Y BENYWOD.—Cyfarfu Urdd Benywod Rhydygwin ar nos Wener, noson olaf y tymor. Rhowd te gan y llywydd Mrs. Jenkins, Glasgoed. O'r deg ar hugain aelod, yr oedd 23 yn bresennol. Wedi gwledda ar gost y llywydd, cafwyd chwaraeon ac unawdau a threuliwyd noson ddifyr. Rhoddodd yr Ysgrifennydd adroddiad o'r Pwyllgor yn Alltyblaca. Y mae'r gangen yn weithgar a byw ag ystyried na chychwynnwyd mohoni ond yn Ionor. Talwyd diolch i'r Llywydd ar gynhygiad Mrs. Evans, Penwern ac eiliwyd gan Mrs. Lloyd, Penbrynmawr. Wedi i'r Llywydd ddiolch penderfynwyd dechreu y tymor nesaf ym mis Hydref.

AWELFRYN.

(Cyflwynedig i'r Parch. Lewis Williams).

Doh D. M. Lloyd, Cwmsychpant.

m	:s.f	|m	:r	|d	:r	|m	:—	|fe	:s	|l	:t	.d'	|t	:l	|s	:—	‖
d	:d	|d	:t,	|l,	:t,	|d	:—	|r	:r	|m	:se	.l	|s	:fe	|s	:—	‖
s	:s	|s	:s	|m	:s	|s	:—	|l	:r'	|d'	:m'		|r'	:d'	|t	:—	‖
d	:m	|s	:s,	|l,	:s,	|d	:—	|l,	:t,	|d	:t,	.l,	|r	:r	|s,	:f	‖
d'	:l.s	|f	:r	|r'	:t.l	|s	:m	|m'	:d'.t	|l	:r'		|d'	:t	|d'	:—	‖
s	:d	|r	:r	|r	:r	|r	:d	|s	:s	|f	:l		|s	:f	|m	:—	‖
d'	:d'	|l	:l	|l	:s	|s	:—	|d'	:d'	|d'	:f'		|m'	:r'	|d'	:—	‖
m	:f	|r	:f	|fe	:s	|t,	:d	|d.r	:m	|f	:f		|s	:s,	|d	:—	‖

Y GOBAITH GWYN.

Cawn ein cynnal nos a dydd
Pan ein baich nid ysgafn fydd ;
Yn dra siriol yw ein gwedd,—
Yn ein calon y mae hedd.

Daw i'n profiad siomau blin,
Ac nid teg bob dydd mo'r hîn ;
Ond os garw ddydd a gawn,
Para wna ein ffydd yn llawn.

Gwyddom am dywyllwch du,
A chaledi o bob tu ;
Ond ein ffydd sydd eto'n gref,
Nid wylofus yw ein llef.

Dygir ni i lan y bedd
Yno'n drist y bydd ein gwedd ;
Ond ein ffydd nid â ar goll,
Ac ein dagrau sychir oll.

Sut mae cyfrif am ein ffydd ?
Sut mai nid anobaith sydd ?
Credu wnawn yn Nuw y nef,
Ac ymddiried ynddo Ef.

Credwn ni mewn arall fyd,
Lle cawn oll ein dwyn ynghyd,
Lle mae'r da mewn perffaith hedd,
Heb fod byth yn drist ei wedd.

Diolch wnawn i'r Dwyfol Dad
Am gael yr efengyl fâd ;
Ynddi cawn y gobaith gwyn
Sydd yn cynnal yn y glyn.

L.W.

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.



JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN' ; WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.